Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

Rhifyn 309 (Cymru) – 1 Rhagfyr 2021

Canfasiad 2021: gwybodaeth am gasglu data cofrestru etholiadol

Fel y gwyddoch, bob blwyddyn mae'r Comisiwn yn casglu data cofrestru etholiadol gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar ôl cyhoeddi'r cofrestrau etholiadol diwygiedig. Mae gan y data hwn rôl bwysig wrth i ni adrodd ar gofrestru etholiadol ym Mhrydain Fawr, a bydd y flwyddyn hon yn ein helpu ni i barhau i ddangos sut mae'r prosesau canfasio diwygiedig wedi bod yn gweithio'n ymarferol.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda chyflenwyr meddalwedd rheoli etholiadol (EMS) i sicrhau bod y data rydym yn gofyn amdano ar gael yn eich systemau.

Bydd y data y gofynnwn amdano yr un fath â'r data yn 2020, gydag un diwygiad bach. Yn 2020, gwnaethom ofyn bod data ar yr eiddo ym mhob llwybr canfasio wnaeth roi gwybod am newid bach yn cael ei grwpio gyda data ar yr eiddo ym mhob llwybr wnaeth roi gwybod nad oedd unrhyw newid. Eleni, ar gyfer Llwybrau 1 a 2, byddwn yn gofyn bod y ffigurau hyn yn cael eu darparu wedi'u gwahanu, fel ein bod yn gallu adrodd ar yr eiddo ym mhob llwybr wnaeth roi gwybod am newid bach a'r rheiny wnaeth roi gwybod nad oedd unrhyw newid, ar wahân.

Byddwn yn cysylltu â chi drwy e-bost yn y dyfodol agos i ofyn am y data, a chyda chefnogaeth y darparwyr EMS, gobeithiwn allu cadarnhau pryd hynny sut y caiff yr adroddiadau perthnasol eu cynhyrchu.

Hoffem ddiolch i chi o flaen llaw am eich cefnogaeth gyda'r gwaith hwn ac am yr amser a gymerwyd i roi'r data i ni.

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Canfasiad 2021: gwybodaeth am gasglu data cofrestru etholiadol

Gwybodaeth am gasglu data ar ôl cyhoeddi'r cofrestrau diwygiedig.

Ymchwil y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ffynonellau data gweinyddol

Gwahoddiad i weinyddwyr etholiadol gymryd rhan mewn ymchwil SYG ar gasglu a chynnal a chadw cofrestrau etholiadol.

Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.

Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn anfon y cylchlythyr yma atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n

Ymchwil y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ffynonellau data gweinyddol

A hoffech siarad am eich gwaith at ddibenion ymchwil? Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn cynnal ymchwil ynghylch ffynonellau data gweinyddol ac mae'n edrych ymlaen at siarad gyda gweinyddwyr etholiadol ynghylch eu rolau a chynnal a chadw'r cofrestrau etholiadol, gan gynnwys y camau paru data newydd.

Mae'r SYG yn deall bod eich amser yn brin a bydd yn ceisio lleihau unrhyw faich arnoch. Bydd yr opsiynau o ran cymryd rhan yn cynnwys ymateb i nifer fach o gwestiynau drwy gyfweliad byr dros y ffôn, neu drwy e-bost os byddai hyn yn well gennych. Bydd grwpiau ffocws, sy'n para 1.5 awr ar y mwyaf, yn cael eu cynnal wedyn gyda'r rheiny a fydd yn gallu rhoi mwy o help. Byddai cymryd rhan yn digwydd ar adeg sy'n fwyaf addas i chi yn ystod Gaeaf 2021/2022.

Bydd eich cyfranogiad yn yr ymchwil yn cynorthwyo'r SYG wrth iddi geisio gwneud defnydd cynyddol o ffynonellau data gweinyddol wrth gynhyrchu ystadegau swyddogol, gyda'r amcan o leihau'r gost a'r baich ar y cyhoedd a grëwyd gan gynnal arolygon.

Os byddech yn fodlon cymryd rhan, hyd yn oed os mai dim ond ychydig bach o amser gallwch ei sbario, cysylltwch â'r prif ymchwilydd yn SYG: jenny.knight@ons.gov.uk.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

© Y Comisiwn Etholiadol 2021

berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.